



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Rhaglen Cadarnhau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso Canlyniadau Dysgu

(Diwygiwyd Ionawr 2018)



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cynnwys

Adran 1 – Dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau	1
Adran 2 – Cydweithio â phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, eu gofawyr a gweithwyr proffesiynol eraill	5
Adran 3 – Ymyriad a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth	7

1. Dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
Bydd y dysgwr yn:	Mae'r dysgwr yn gallu:
<p>1.1 Deall sut mae fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chanllawiau yn cael eu defnyddio i lywio arferion asesu</p>	<p>1.1.1. Amlinellu'r fframweithiau deddfwriaethol, y safbwyntiau damcaniaethol, y safonau a'r canllawiau sy'n sail i arferion asesu mewn gwaith cymdeithasol.</p> <p>1.1.2. Gwerthuso'r berthynas rhwng arferion asesu a:</p> <ul style="list-style-type: none"> • fframweithiau deddfwriaethol • safbwyntiau damcaniaethol • safonau • canllawiau a phrotocolau. <p>1.1.3. Dadansoddi sut mae dulliau o weithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn dylanwadu ar arferion a phrosesau asesu.</p> <p>1.1.4. Dadansoddi sut mae eu harferion asesu yn cefnogi gwaith cymdeithasol seiliedig ar ganlyniadau.</p>

<p>1.2 Gallu defnyddio dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sydd â'i ffocws ar ganlyniadau er mwyn cyflawni amrywiaeth o asesiadau i hyrwyddo a chefnogi llesiant</p>	<p>1.2.1. Gweithio'n gyfannol gyda phobl er mwyn iddynt allu nodi, egluro a mynegi eu cryfderau, eu hanghenion a'r canlyniadau maent yn dymuno eu sicrhau.</p> <p>1.2.2. Wrth asesu, dangos cyfuniad o werthoedd gwaith cymdeithasol, y <i>Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol</i> a'r canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.</p> <p>1.2.3. Cynnwys sensitifrwydd o ran diwylliant ac iaith wrth ymarfer, gan gynnwys cynnig gweithredol o ran yr iaith Gymraeg.</p> <p>1.2.4. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn ymgymryd ag asesiad amlddisgyblaethol gan ddefnyddio dulliau o weithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sydd â'u ffocws ar ganlyniadau.</p> <p>1.2.5. Defnyddio dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sydd â'i ffocws ar ganlyniadau i gynnal asesiad o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cryfderau unigolyn • anghenion unigolyn • anghenion gofalwr • eu hamgylchiadau • risg a sut mae ei rheoli. <p>1.2.6. Cefnogi pobl i gymryd rhan mewn darganfod ffyrdd creadigol o wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi canlyniadau • adeiladu ar gryfderau, gallu a chyflawniadau • canfod datrysiadau • cyflawni newid • hyrwyddo llesiant.
<p>1.3 Gallu cofnodi gwybodaeth asesu er mwyn llywio penderfyniadau</p>	<p>1.3.1. Egluro sut mae gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi'n cael ei defnyddio i gefnogi dadansoddiadau a phenderfyniadau.</p> <p>1.3.2. Cadw cofnodion ysgrifenedig ac electronig sy'n cydymffurfio â deddfwriaethau, polisiau a gweithdrefnau cyfredol.</p> <p>1.3.3. Dangos bod cofnodion asesu cywir, cymhellol, dealladwy a dadansoddol yn cael eu cwblhau.</p> <p>1.3.4. Dadansoddi'r canlyniadau posibl lle nad yw'r cofnodi'n gywir, yn gymhellol, yn ddealladwy nac yn ddadansoddol.</p>

<p>1.4 Gallu llunio barn broffesiynol ar sail gwybodaeth asesu</p>	<p>1.4.1. Dadansoddi ystod o wybodaeth asesu er mwyn llywio barn broffesiynol.</p> <p>1.4.2. Defnyddio barn broffesiynol ynglŷn â safbwyntiau a dewisiadau unigolyn, yn ogystal â'i anghenion, ei gryfderau, y risgiau a'r ffactorau gwarchodol.</p> <p>1.4.3. Egluro sut mae ystyriaethau moesegol yn siapio ei farn ei hun.</p> <p>1.4.4. Egluro'r rhesymeg dros ei farn broffesiynol ei hun.</p> <p>1.4.5. Cyfiawnhau ei farn broffesiynol ei hun, sy'n ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • safbwyntiau a dewisiadau unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth • dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd • dull o weithredu â'i ffocws ar ganlyniadau. <p>1.4.6. Addasu ei farn broffesiynol ei hun pan gyflwynir tystiolaeth newydd.</p> <p>1.4.7. Defnyddio tystiolaeth ymchwil i ffurfio barn broffesiynol.</p>
<p>1.5 Gallu defnyddio myfyrion beirniadol i werthuso dadansoddiad personol mewn asesiadau gwaith cymdeithasol</p>	<p>1.5.1. Defnyddio myfyrion beirniadol i werthuso ymarfer personol o ran dadansoddi mewn asesiadau gwaith cymdeithasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi lle canolog i lais yr unigolyn yn yr asesiad • ymarfer seiliedig ar werth • canolbwyntio ar yr effaith ar yr unigolyn a'r canlyniadau • ymarfer moesegol, gan gynnwys rheoli cyfyng-gyngor moesegol • hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth • cefnogi dewis o iaith • cefnogi cyfathrebu • y fframwaith deddfwriaethol, y polisiau a'r gweithdrefnau ym maes gwaith cymdeithasol • gwybodaeth wedi'i rhoi yng nghyd-destun defnyddwyr gwasanaethau mewn maes gwaith • defnyddio tystiolaeth ymchwil berthnasol wrth asesu • goruchwylio a mentora i ganfod anghenion datblygu pellach • asesu risg • sgiliau eraill a ddefnyddir wrth asesu. <p>1.5.2. Gwerthuso ymarfer personol wrth ddadansoddi mewn asesiadau gwaith cymdeithasol i nodi ei gryfderau ei hun a'r meysydd ar gyfer dysgu a datblygu.</p> <p>1.5.3. Llunio ei gynllun dysgu a datblygu proffesiynol ei hun.</p>

<p>Cyfeirnod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol</p>	<p>Safonau Gwaith Cymdeithasol 2011 y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol</p> <p>2 – Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwylio a myfyrio</p> <p>4 – Defnyddio barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol</p> <p>5 – Rheoli materion moesegol, gwrthdaro a chyfyng-gyngor</p> <p>7 – Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol sy'n ymwneud â phobl</p> <p>12 – Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rhai sy'n gysylltiedig</p> <p>15 – Cytuno ar gynlluniau rheoli risg er mwyn hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb</p>
<p>Diffiniad o dermau</p>	<p>Mae fframweithiau deddfwriaethol yn cynnwys y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sydd, gyda'i gilydd, yn diffinio cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr cymdeithasol mewn perthynas â maes ymarfer.</p> <p>Dylai'r safonau gynnwys y Codau Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol.</p> <p>Mae canllawiau yn cynnwys <i>Y Gweithiwr Cymdeithasol – Canllawiau Ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.</i></p> <p>Mae arferion personol yn golygu arferion yr ymgeisydd.</p>

2. Cydweithio â phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

<p>Canlyniadau dysgu</p> <p>Bydd y dysgwr yn:</p>	<p>Meini prawf asesu</p> <p>Mae'r dysgwr yn gallu:</p>
<p>2.1 Gallu cyfathrebu'n effeithiol â phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofalwr</p>	<p>2.1.1 Paratoi'n llwyr ar gyfer cymryd rhan mewn gwaith cymdeithasol.</p> <p>2.1.2 Sefydlu cydgyhyrchu a phartneriaeth fel sail ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol mewn amryw o wahanol amgylchiadau.</p> <p>2.1.3 Dangos defnydd o ddulliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau i weithio gyda defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr.</p> <p>2.1.4 Ceisio cymorth os yw'r dull cyfathrebu a ddewisir y tu hwnt i allu'r gweithiwr.</p> <p>2.1.5 Dangos sgiliau cyfathrebu sy'n rhoi ystyriaeth i ddewis o iaith a diwylliant.</p> <p>2.1.6 Dangos sgiliau cyfathrebu sy'n dangos parch tuag at oedran, ethnigrwydd, diwylliant, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd neu gred, dealltwriaeth ac anghenion.</p> <p>2.1.7 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i helpu i reoli sefyllfaoedd o ofid, gelyniaeth neu wrthwynebiad.</p> <p>2.1.8 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i gadarnhau bod dymuniadau a dewisiadau'r defnyddiwr gwasanaeth a'r gofalwr wedi'u deall.</p> <p>2.1.9 Cyfleu canlyniadau llesiant, safbwyntiau, dewisiadau a theimladau unigolion a gofalwyr mewn cofnodion, gohebiaeth a chynlluniau.</p> <p>2.1.10 Disgrifio sut mae eu harferion cyfathrebu wedi newid a datblygu ers cymhwysu.</p>

<p>2.2 Gallu gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a gweithwyr proffesiynol eraill</p>	<p>2.2.1 Egluro rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol gweithwyr proffesiynol eraill.</p> <p>2.2.2 Cyfathrebu mewn modd sy'n cefnogi ac yn parchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, sefydliadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol.</p> <p>2.2.3 Dangos gallu i weithio mewn partneriaeth â phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, eu gofalwyr a chymunedau.</p> <p>2.2.4 Dangos parch tuag at sgiliau, arbenigedd a chyfraniadau cydweithwyr ei sefydliad ei hun yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill.</p> <p>2.2.5 Cynnal rôl a swyddogaeth gwaith cymdeithasol a defnyddio barn annibynnol.</p> <p>2.2.6 Defnyddio'r protocolau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth: <ul style="list-style-type: none"> • yn ei sefydliad ei hun • rhwng asiantaethau yng nghyd-destun gwaith amlasiantaeth. </p>
<p>2.3 Myfyrion feirniadol ar ei waith cydweithredol ei hun</p>	<p>2.3.1 Myfyrion feirniadol ar ei berfformiad ei hun wrth gydweithio, gan ddatgan meysydd o ymarfer da a'r rhai i'w datblygu, wrth weithio gyda'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth • gofalwyr • eiriolwyr • cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. </p>
<p>Cyfeirnod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol</p>	<p>Safonau Gwaith Cymdeithasol 2011 y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol:</p> <p>6 – Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol</p> <p>8 – Paratoi ar gyfer cymryd rhan mewn gwaith cymdeithasol</p> <p>9 – Ymgysylltu pobl ag ymarfer gwaith cymdeithasol</p> <p>10 – Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu</p> <p>11 – Eirioli ar ran pobl</p> <p>12 – Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rhai sy'n gysylltiedig</p> <p>15 – Cytuno ar gynlluniau rheoli risg er mwyn hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb</p>

Diffiniad o dermau

Dyma rai dulliau o gyfathrebu:

- geiriol
- di-eiriau
- gwahanol ieithoedd
- defnyddio symbolau
- cyfathrebu ysgrifenedig.

Gall y gweithwyr proffesiynol eraill gynnwys:

Gweithwyr proffesiynol meddygol, nyrso a pherthynol i iechyd, yr heddlu, athrawon, cyfreithwyr, staff tai, eiriolwyr, gweithwyr gofal iechyd eraill neu weithwyr cymdeithasol.

3. Ymyriad a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth

<p>Canlyniadau dysgu</p> <p>Bydd y dysgwr yn:</p>	<p>Meini prawf asesu</p> <p>Mae'r dysgwr yn gallu:</p>
<p>3.1. Deall y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau â darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru</p>	<p>3.1.1 Gwerthuso sut mae polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau yn sail i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n berthnasol i faes mewn gwasanaethau cymdeithasol • diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion • diogelu data a rhannu gwybodaeth • caniatâd a datgeliad. <p>3.1.2 Amlinellu'r rhyngweithio rhwng y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwledydd eraill y Deyrnas Unedig • yr Undeb Ewropeaidd • y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

<p>3.2. Gallu rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth</p>	<p>3.2.1. Nodi'r ffactorau a all gynyddu cymhlethdod mewn gwaith cymdeithasol.</p> <p>3.2.2. Gwerthuso sut mae fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, tystiolaeth ymchwil, modelau ymyrryd, safonau a chanllawiau yn cael eu defnyddio fel sail i arferion wrth ddelio â sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.</p> <p>3.2.3. Ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol o fewn ffiniau proffesiynol, cyfreithiol a sefydliadol mewn sefyllfa gymhleth.</p> <p>3.2.4. Dangos dyfalbarhad a phendrantrwydd wrth ymyrryd mewn sefyllfa gymhleth.</p> <p>3.2.5. Trafod gydag eraill i ddod i benderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth.</p> <p>3.2.6. Gwneud argymhellion a phenderfyniadau prydlon yn unol â'i lefel ei hun o gyfrifoldeb mewn sefyllfa gymhleth.</p> <p>3.2.7. Llunio cynlluniau wrth gefn i ragweld ac ymateb i amgylchiadau sy'n newid mewn sefyllfaoedd cymhleth.</p> <p>3.2.8. Defnyddio goruchwyliaeth a mentora i ystyried a rheoli ymyriadau a barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth.</p> <p>3.2.9. Myfyrio'n feirniadol ar ei berfformiad ei hun mewn sefyllfaoedd cymhleth er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datgan meysydd ble ceir ymarfer da • nodi meysydd ymarfer sydd angen eu datblygu • datblygu a chryfhau gwytnwch personol.
<p>3.3. Deall rôl broffesiynol gwaith cymdeithasol mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n wynebu risg</p>	<p>3.3.1 Egluro polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol mewn perthynas â diogelu oedolion.</p> <p>3.3.2 Deall y fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelu oedolion.</p> <p>3.3.3 Dadansoddi'r ffactorau a all nodi bod oedolyn yn wynebu risg o niwed, esgeulustod neu gam-drin.</p> <p>3.3.4 Disgrifio dangosyddion niwed, esgeulustod neu gam-drin oedolion.</p> <p>3.3.5 Egluro pwysigrwydd sefydlu canlyniadau dewisol yr ymyriad diogelu ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth • gofalwyr.

<p>3.4 Deall rôl broffesiynol gwaith cymdeithasol mewn perthynas â diogelu plant sy'n wynebu risg</p>	<p>3.4.1. Egluro polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol mewn perthynas â diogelu plant sy'n wynebu risg.</p> <p>3.4.2. Dadansoddi'r ffactorau a all nodi bod plentyn yn wynebu risg o niwed, esgeulustod neu gam-drin.</p> <p>3.4.3. Disgrifio dangosyddion niwed, esgeulustod neu gam-drin plant.</p> <p>3.4.4. Egluro pwysigrwydd sefydlu canlyniadau dewisol yr ymyriad diogelu ar gyfer plant, teuluoedd a gofalwyr sydd ag anghenion cymorth.</p>
<p>3.5. Gallu arfer rôl broffesiynol gwaith cymdeithasol o ran ymyriadau diogelu</p>	<p>3.5.1. Cyflawni, gydag eraill, asesiad sy'n ymwneud â diogelu naill ai oedolyn neu blentyn. Wrth wneud hynny, byddant yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweithredu o fewn y gofynion cyfreithiol, sefydliadol a phroffesiynol gofynnol • parhau i ganolbwyntio ar y sawl sy'n wynebu risg • arfer pendantrwydd proffesiynol wrth wneud penderfyniadau proffesiynol. <p>3.5.2. Cyfrannu at gynllun cymorth ac ymyrryd ar gyfer oedolyn neu blentyn.</p> <p>3.5.3. Cyfrannu at werthuso ymyriadau diogelu.</p>
<p>3.6. Gallu cyfrannu at brosesau cyfreithiol o fewn cylch gwaith gweithiwr cymdeithasol proffesiynol</p>	<p>3.6.1. Egluro rôl a chylch gwaith prosesau cyfreithiol mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant ac oedolion agored i niwed.</p> <p>3.6.2. Dadansoddi rôl y gweithiwr cymdeithasol mewn prosesau cyfreithiol mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • plant • oedolion. <p>3.6.3. Cyfrannu barn broffesiynol at asesu mewn achos a all gynnwys prosesau cyfreithiol.</p> <p>3.6.4. Cyfrannu barn broffesiynol at adroddiad a baratowyd ar gyfer prosesau cyfreithiol.</p>

<p>3.7. Gallu arfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth</p>	<p>3.7.1 Crynhoi gofynion atebolrwydd proffesiynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.</p> <p>3.7.2 Defnyddio'r <i>Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol</i> a'r canllawiau ymarfer mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.</p> <p>3.7.3 Defnyddio gwaith goruchwylio a chanllawiau i fyfrio'n feirniadol ar:</p> <ul style="list-style-type: none">• atebolrwydd proffesiynol• datblygiad proffesiynol. <p>3.7.4 Cwblhau cofnodion ac adroddiadau cywir, cymhellol, dealladwy a dadansoddol ac ymyriadau gwaith cymdeithasol sy'n cydymffurfio â gofynion sefydliadol a chyfreithiol.</p> <p>3.7.5 Dilyn gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau diogelwch personol yn y rôl broffesiynol.</p>
--	--

Cyfeirnod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol	Safonau Gwaith Cymdeithasol 2011 y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol: 2 – Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwylio a myfyrio 3 – Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol 4 – Defnyddio barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol 5 – Rheoli materion moesegol, gwrthdaro a chyfyng-gyngor 6 – Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol 7 – Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol sy’n ymwneud â phobl 8 – Paratoi ar gyfer cymryd rhan mewn gwaith cymdeithasol 9 – Ymgysylltu pobl ag ymarfer gwaith cymdeithasol 10 – Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu 11 – Eirioli ar ran pobl 12 – Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â’r rhai sy’n gysylltiedig 13 – Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth 14 – Cynllunio, mewn partneriaeth, i fynd i’r afael â materion tymor byr neu dymor hirach 15 – Cytuno ar gynlluniau rheoli risg er mwyn hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb 16 – Cytuno ar gynlluniau os oes perygl o niwed neu gamdriniaeth 17 – Cymhwyso dulliau a phatrymau o ymyriadau gwaith cymdeithasol i hybu newid 18 – Defnyddio adnoddau i gefnogi atebion sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn 19 – Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol
--	--

<p>Diffiniad o dermau</p>	<p>Mae'n rhaid i'r fframweithiau deddfwriaethol gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • deddfwriaeth ynghylch darparu gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â galluedd meddyliol, oedolion, plant a theuluoedd • Deddf Hawliau Dynol • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn • deddfwriaeth cydraddoldeb • iechyd a diogelwch. <p>Y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • maes penodol o waith cymdeithasol • diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion • diogelu data a rhannu gwybodaeth • caniatâd a datgeliad. <p>Dylai safonau gynnwys y <i>Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol</i> a'r canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.</p> <p>Bydd y polisiau a'r gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • canllawiau cenedlaethol • polisiau a gweithdrefnau diogelu • cyfrinachedd • gwaith amlasiantaeth • amlasiantaeth • cofnodi • rhyddid gwybodaeth a diogelu data. <p>Ystyr gydag eraill yw'r gweithwyr proffesiynol eraill a fyddai'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol neu eraill sy'n gysylltiedig ag asesiadau sy'n ymwneud â diogelu.</p> <p>Mae'r prosesau cyfreithiol yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • prosesau a all arwain at achosion llys neu achosion cyfreithiol eraill • ymchwiliadau neu ymyriadau a gynhelir o fewn proses gyfreithiol bendant (er enghraifft, diogelu neu wasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl). <p>Mae'r atebolrwydd proffesiynol i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y cyflogwr • corff rheoleiddio • pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr • tîm amlddisgyblaethol • gwaith cymdeithasol fel proffesiwn.
----------------------------------	--



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government